TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Adroddiad Blynyddol 2024 - 2025

# Cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg

**Paratowyd yn unol â gofynion**

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Mehefin 2025



**This document is also available in English**

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 2

2. Cefndir 3

3. Cydymffurfio 4
    - Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
    - Safonau Llunio Polisi
    - Safonau Gweithredu
    - Cwynion
    - Sgiliau'r Iaith Gymraeg
    - Hyfforddiant Iaith Gymraeg
    - Recriwtio

4. Casgliad 16

# 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i drigolion ac ymwelwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Trwy gydol 2024/54, mae'r tîm wedi gweithio gyda Cyfarwyddiaethau i godi ymwybyddiaeth a chynghori ar ofynion cyfreithiol y Safonau. Mae gwaith wedi dechrau ar Hyfforddiant Corfforaethol ar gyfer y Gymraeg i sicrhau bod gweithwyr newydd yn ymwybodol o'r pwysigrwydd a'r gofynion moesegol wrth weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi partneriaid a sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor gyda'r nod o wella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno'n cydymffurfiad â'r Safonau ac yn cyflwyno'r data angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Rydym wedi dileu rhwystrau a allai wahardd cynnydd y Safonau a bydd yn arwain i fwy o hyrwyddo a chyflogi staff i ddarparu ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Cyflwynwyd yr adroddiad yma i'r Cyngor llawn ac mae'n sicrhau fod Aelodau Etholedig yn llwyr ymwybodol o'r cyfrifoldebau corfforaethol a rhwymedigaethau statudol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol, wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor, yn cael ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Cyngor (www.torfaen.gov.uk), o dan adran yr iaith Gymraeg a bydd ar gael mewn swyddfeydd lleol ble mae mynediad i'r cyhoedd, erbyn 30 Mehefin 2025 fan bellaf.

## 2. Cefndir

Cynhyrchir yr Adroddiad Blynyddol hwn dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015. O dan y fframwaith cyfreithiol mae gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen adrodd ar bum maes statudol.

| Meysydd | Safon a/neu Isadran Berthnasol |
|---|---|
| **Cydymffurfiad** | 158, 164, 170 |
| **Cwynion** | 147, 148, 149, 156, 158 *(2)*,<br>162, 164 *(2)*, 168 *(a),* 170 *(2) (d)* |
| **Sgiliau'r Iaith Gymraeg** | 170 *(2) (a),* 151 |
| **Hyfforddiant Iaith Gymraeg** | 170 *(2) (b) (c),* 152 |
| **Recriwtio** | 170 *(2) (ch),* 154 |

Ceir manylion Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor o fewn yr Hysbysiad Cydymffurfio dyddiedig 30 Medi 2015. Mae'r cyngor yn ddarostyngedig i 170 o Safonau sydd wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Cydymffurfio. Mae copi o Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gael yma

Yn ystod 2024/2025, roedd y Tîm Iaith Gymraeg yn rhan o'r Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n eistedd o dan gyfarwyddiaeth Oedolion a Chymunedau. Ar hyn o bryd, mae pedwar aelod staff yn gweithio ar gyflawni gwaith Iaith Gymraeg corfforaethol ar ran y Cyngor:

Swyddog yr Iaith Gymraeg
Cydgysylltydd Cyfieithu Cymraeg
Cyfieithwyr yr Iaith Gymraeg (1 x Ll/A, 1 x Rh/A)

Cyfarwyddiaeth Oedolion a Chymunedau
Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl
Torfaen, NP4 6YB

Ffôn: (01495) 766096

Yr Aelod Gweithredol a benodwyd ar gyfer Llywodraeth Gorfforaethol a Pherfformiad (gan gynnwys yr Iaith Gymraeg) ar gyfer 2024/25 oedd y Cyng. Peter Jones

## 3. Cydymffurfio

Cyhoeddwyd canllawiau a dehongliad y Cyngor ar gyfer staff ar ofynion y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ar fewnrwyd y Cyngor.  Bydd y cyngor yn cynnal ei ymarfer siopwr cudd ei hunain i sicrhau cydymffurfiad cyson â'r Safonau.

### Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

| Grŵp Safonau | Camau a Gymerwyd yn ystod 2024/25 | Camau i'w cymryd yn ystod 2025/26 |
|---|---|---|
| Safonau 1 - 7<br>Gohebiaeth a ddanfonwyd ac a dderbyniwyd | Cyhoeddi canllawiau drwy Bwletin Staff<br><br>Mae cyfeiriadau e-bost corfforaethol wedi'u cyfieithu a byddwn yn parhau i weithio gydag SRS i fabwysiadu'r cyfeiriadau dwyieithog newydd | Monitro gohebiaeth gyffredinol â'r cyhoedd i sicrhau cydymffurfiaeth. |
| Safonau 8 - 22<br>Galwadau ffôn a wnaed ac a dderbyniwyd | Yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, mae'r Cyngor wedi adolygu eu gweithdrefn ar gyfer galwadau a dderbynnir yn Gymraeg.<br><br>Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025 derbyniodd prif ganolfan alwadau y Cyngor gyfanswm o 81,952 o alwadau. Dewisodd 0.83% (682 o alwadau) o'r galwyr hyn yr opsiwn Cymraeg. | Sicrhau bod aelodau a staff yn ymwybodol o'r protocol wrth ddelio â galwadau Cymraeg.<br><br>Sicrhau bod y grŵp "hela" Cymraeg yn cael ei ddiweddaru a'i rannu gyda'r staff perthnasol |
| Safonau 24 - 36<br>Cyfarfodydd gyda'r Cyhoedd | Mae staff wedi cael eu hatgoffa ar ofynion y Safonau, a phan fo'n ofynnol cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus. | Ymchwilio i sut y byddai cyfieithu ar y pryd yn gweithio yn siambr y Cyngor ar gyfer cyfarfodydd amlieithog mawr. |
| Safonau 37 - 51, 69 - 70<br>Dogfennau dwyieithog eraill | Parhau i weithio gyda'n tîm Cyfathrebu i sicrhau bod dogfennau'n cael eu cynhyrchu yn unol â'r Safonau. | Monitro samplau o ddogfennau i sicrhau cydymffurfiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| Safonau 52 - 60<br>Gwefannau, Cyfryngau Cymdeithasol ac Apiau, a Pheiriannau Hunanwasanaeth | Derbyniodd tudalennau Cymraeg y wefan gorfforaethol 89,216 o ymweliadau yn ystod 2024/25, o'i gymharu â 1,819,439 o ymweliadau ar y tudalennau Saesneg.<br><br>Wrth edrych yn fanylach, ers mis Hydref 2024 bu rhai anghysondebau yn yr ymweliadau i ochr Cymraeg o'r wefan. Gan arwain at cynnydd sylweddol bob ychydig ddyddiau. Mae'r ymweliadau hyn yn fyr iawn (llai nag 1 eiliad) a gan wahanol ddefnyddwyr.<br>Mae hyn felly wedi amharu ar y ffigurau'n sylweddol. | Monitro gwefannau sy'n eiddo i'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Gweithio gyda sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan i sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Ymchwilio pam y bu cynnydd anghymesur mewn ymweliadau (adroddwyd trwy Google Analytics) |
| Safonau 61 - 63<br>Arwyddion | Roedd 1 datblygiad newydd yn ystod 2024/25.<br>1 enw stryd wedi'i gymeradwyo (100%) gydag enw Cymraeg.<br><br>Mae hyfforddiant uniongyrchol wedi'i roi i staff sy'n comisiynu arwyddion priffyrdd ac enw strydoedd.<br><br>Nid yw enwau strydoedd presennol yn cael eu cyfieithu. | Monitro ailosod arwyddion ac arwyddion newydd.<br><br>Sicrhau bod gweithdrefn arwyddion ffordd newydd yn addas i'r diben<br><br>Bydd y Cyngor yn anelu at safoni enwau lleoedd yn y fwrdeistref (yn unol â Chomisiynydd y Gymraeg) |
| Safonau 64 - 68<br>Gwasanaethau'r Dderbynfa | Gwnaed ymweliadau cyfnodol yn ystod y flwyddyn i sicrhau cydymffurfiaeth. | Gweithio gyda gofal cwsmeriaid i fynd i'r afael ag unrhyw hyfforddiant sydd ei angen. |

| | | |
|---|---|---|
| Safonau 71 - 75<br>Rhoi Grantiau | Mae’r adran Archwiliad Mewnol yn asesu perfformiad unrhyw gyllid a ddyfarnwyd fel rhan o grant yn unol â'r Safonau dyfarnu grantiau.<br><br>Nid oes unrhyw asesiadau wedi'u cynnal yn ystod 2024/2025 mewn perthynas â cydymffurfiaeth grantiau | Sicrhau bod y Gymraeg wedi'i chynnwys o fewn cytundebau grant.<br><br>Yn ystod 2025/2026 bydd y tîm Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad ar grantiau'r trydydd sector. |
| Safonau 76 - 80<br>Rhoi Cytundebau | Mae'r holl wahoddiadau caffael yn cynnwys sgorio elfennau Cymraeg.<br><br>Cynigir cymorth Cymraeg i bob tendr llwyddiannus. | Parhau i weithio gyda darparwyr trydydd parti ar ofynion iaith Gymraeg a darparu cymorth ymarferol |
| Safonau 81 - 82<br>Hyrwyddo Gwasanaethau Iaith Gymraeg | Canllawiau i staff ar hyrwyddo gwasanaethau drwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>. | Monitro'r cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n weithredol a bod cynnwys yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r Safonau. |
| Safon 83<br>Hunaniaeth Gorfforaethol | Mae hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn ddwyieithog | Monitro cydymffurfiaeth |
| Safonau 84 a 86<br>Cyrsiau Addysgol | Mae cyrsiau'n symud yn bennaf i lwyfannau digidol ac yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. | Sicrhau bod yr asesiad o gyrsiau yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan<br><br>Byddwn yn datblygu dull o gofnodi nifer y mynychwyr a'r dewis iaith. |
| Safon 87<br>Systemau Cyhoeddiadau Cyhoeddus | Mae'r cyhoeddiadau a wneir ym mhob lifft yn Swyddfeydd y Cyngor yn ddwyieithog. | Monitro cydymffurfiaeth |

## Safonau Llunio Polisi

Cyhoeddir canllawiau a dehongliad y Cyngor ar ofynion y Safonau Llunio Polisi ar fewnrwyd y Cyngor.

| Grŵp Safonau | Camau a Gymerwyd yn ystod 2024/25 | Camau i'w cymryd yn ystod 2025/26 |
|---|---|---|
| Safonau 88 - 93 | Defnyddir asesiad effaith integredig y Cyngor, sy'n gysylltiedig â'r 7 nod llesiant cenedlaethol, i sicrhau bod "ymdrech gydwybodol" wedi'i wneud i nodi effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.<br><br>Mae gan Uned Iaith Gymraeg oruchwyliaeth o bob penderfyniad polisi sy'n gofyn am asesiad effaith integredig cyn ei gyflwyno i'r Aelodau Etholedig<br><br>Mae hyfforddiant ar-lein wedi'i ddatblygu i gynorthwyo swyddogion i gwblhau'r Asesiad Effaith Integredig | Monitro cwblhau'r modiwl hyfforddi ar-lein gan swyddogion ac adrodd % o fewn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. |

## Safonau Gweithredu

Cyhoeddir canllawiau a dehongliad y Cyngor ar gyfer staff ar ofynion y Safonau Gweithredu ar fewnrwyd y Cyngor.  Bydd y cyngor yn cynnal ei ymarfer siopwr cudd ei hunain i sicrhau cydymffurfiad cyson â'r Safonau.

| **Grŵp Safonau** | **Camau a Gymerwyd yn ystod 2023/24** | **Camau i'w cymryd yn ystod 2024/25** |
|---|---|---|
| Safonau 99 – 104<br>Dogfennau Cyflogaeth | Mae'r holl ddogfennau electronig  Adnoddau Dynol yn ddwyieithog.<br><br>Mae'r system awtomataidd ar gyfer nodi gwyliau / absenoldebau, treuliau a gwerthuso staff yn parhau i fod yn Saesneg yn unig. | Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth |
| Safonau 105 – 111<br>Polisïau Adnoddau Dynol | Darperir holl bolisïau Adnoddau Dynol y Cyngor yn Gymraeg ar fewnrwyd y staff (SWOOP). | Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth |
| Safonau 112 – 119<br>Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu; | Mae 16 o weithwyr (2.04% o'r rhai sydd wedi cwblhau eu dewis iaith) wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith gyfathrebu | Nod yw annog 100% o staff i gwblhau data sgiliau iaith Gymraeg sy'n cynnwys dewis iaith. |
| Safonau 120 - 125<br>Mewnrwyd y Staff ac Adnoddau TG | Mae gan staff fynediad i'r Cysgliad, "Tô Bach" a 'phecyn iaith' Cymraeg gan Microsoft ar bob cyfrifiadur wedi ei ddiwygio a newydd | Diweddaru'r holl adnoddau ar dudalennau Cymraeg y fewnrwyd |
| Safon 127<br>Sgiliau Iaith Staff | Gweler yr adran ar *sgiliau iaith Gymraeg*. | Nod yw annog 100% o staff i gwblhau data sgiliau iaith Gymraeg sy'n cynnwys dewis iaith |

| | | |
|---|---|---|
| Safonau 128 - 133<br>Hyfforddi staff | Gweler yr adran ar<br>*Sgiliau Cymraeg.*<br><br>Mae hyfforddiant yn cael ei ddatblygu ar system Thinqi.<br><br>Yn ystod 2024/2025, ymgymerodd 23 o weithwyr â hyfforddiant Cymraeg. | Parhau i hyrwyddo dysgu Cymraeg fel sgil gwerthfawr.<br><br>Datblygu modiwl ymwybyddiaeth Cymraeg ar-lein ac edrych ar ei wneud yn orfodol i bob dechreuwr newydd |
| Safonau 134 - 135<br>Geiriad a Logo ar gyfer Llofnod E-byst Staff | Mae'r holl staff yn cael eu hatgoffa, drwy reolwyr llinell, i gael llofnod e-bost dwyieithog yn unol â safonau corfforaethol.<br><br>Mae'r logo "Cymraeg Gwaith" ar gael i staff ei lawrlwytho ar y fewnrwyd.<br><br>Mae staff yn gallu dewis cefndiroedd Teams sy'n arddangos logo Iaith Gwaith Cymraeg | Diweddaru'r holl adnoddau ar dudalennau Cymraeg y fewnrwyd |
| Safonau 136 - 140<br>Y Broses Recriwtio | Gweler yr adran *Recriwtio* | Monitro cydymffurfiaeth |
| Safonau 141 - 143<br>Arwyddion Mewnol | Mae hyfforddiant uniongyrchol wedi'i roi i staff sy'n comisiynu arwyddion mewnol. | Monitro holl swyddfeydd y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth. |
| Safon 144<br>Cyhoeddiadau'r Gweithle | Mae'r cyhoeddiadau a wneir ym mhob lifft yn swyddfeydd y Cyngor yn ddwyieithog. | Parhau i fonitro |

## Cwynion

Mae pob cwyn a dderbynnir gan drigolion trwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn unol â pholisi cwyno corfforaethol y Cyngor. Caiff cwynion eu categoreiddio dan dri cham

- **Cam 1 -** Datrys cwyn yn anffurfiol o fewn 10 diwrnod gwaith
- **Cam 2 -** Cwyn Cam 1 sydd wedi ei chyfeirio at swyddog uwch neu gŵyn sy'n ymwneud â mwy nag un maes gwasanaeth. Caiff cwynion eu harchwilio'n ffurfiol a chânt ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.
- **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus / Comisiynydd y Gymraeg -** Cwyn Cam 2 sydd wedi ei chyfeirio at swyddog neu gorff uwch a all gael arolwg annibynnol ar ran yr achwynydd. Byddai'r Ombwdsmon yn disgwyl i'r achwynydd fod wedi defnyddio proses gwyno lawn y Cyngor cyn cysylltu, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. O dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru), mae Comisiynydd yr Iaith yn medru derbyn cwynion a anfonir yn uniongyrchol i swyddfa'r Comisiynydd ac ymchwilio ar eu rhan, os tybir bod y gŵyn yn un ddilys.

Yn ystod 2024/2025, Ni dderbyniwyd unrhyw gwyn.

| Cam 1: | Cam 2: | Comisiynydd y Gymraeg |
|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 |

<u>Cam 1</u>
Ni chafwyd unrhyw gwynion gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn.

<u>Comisiynydd y Gymraeg</u>
Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau newydd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod 2024/2025

| | |
|---|---|
| CS1061 - (diweddariad) | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 28/09/2022<br>Mae hyn yn cyfeirio at gŵyn a godwyd ym mis Medi 2022, ond ni chafodd ei hymchwilio a'i chyfeirio at Dribiwnlys y Gymraeg i'w phenderfynu. Ail-agorwyd yr achos ym mis Mehefin 2023. Mae'r gŵyn yn ymwneud â enwau strydoedd ac ystyriaeth i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau'r Cyngor. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oedd Cyngor Torfaen wedi cydymffurfio'n llawn â'r Safonau perthnasol, a gosodwyd nifer o gamau gweithredu. Mae'r rhain i gyd wedi'i gweithredu ac mae'r achos wedi'i gau. |
| CS1149 - (diweddariad) | Cwyn a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 25/11/2023.<br>Roedd pedair galwad ffôn heb eu hateb a wnaed fel rhan o'r ymarfer siopwr cudd y Comisiynydd. Daeth yr ymchwiliad hwn i'r casgliad bod Torfaen ddim wedi cydymffurfio'n llawn â'r Safonau perthnasol, a gosodwyd nifer o gamau gweithredu. Mae'r rhain i gyd wedi'i weithredu ac mae'r achos wedi'i gau. |

## Sgiliau'r Iaith Gymraeg

Yn ystod 2024/2025, newidiodd y lefelau ar gyfer cofnodi sgiliau Cymraeg i'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR).. Mae'r CEFR yn trefnu hyfedredd iaith ar chwe lefel, A1 i C2, y gellir eu hail-grwpio yn dair lefel eang: Defnyddiwr Sylfaenol, Defnyddiwr Annibynnol a Defnyddiwr Hyfedr, a gellir eu rhannu ymhellach yn ôl anghenion y cyd-destun lleol. Mae'r lefelau yn cael eu diffinio trwy ddisgrifyddion gallaf-wneud'.

Nid oedd CEFR yn cyd-fynd yn union â'r graddfeydd ALTE a ddefnyddiwyd gennym hyd at fis Rhagfyr 2024. Felly, rydym wedi lansio ymgyrch i gasglu'r data hwn gan staff newydd a phresennol, bydd hyn yn ein hysbysu o bwy sydd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn helpu unrhyw feysydd eraill lle gallwn ei chael hi'n anodd darparu gwasanaethau Cymraeg.

Hyd yn hyn, mae 15% o'r staff wedi cwblhau'r asesiad. Isod mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am sgiliau Cymraeg staff a'u dewis iaith.

Mae'r data isod yn amlinellu pob maes gwasanaeth a'r lefelau hyfedredd Cymraeg, a asesir gan ddefnyddio graddfeydd Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR).

| | | |
|---|---|---|
| A1 | - | Mynediad |
| A2 | - | Sylfaen |
| B1 | - | Canolradd |
| B2 | - | Uwch |
| C1 | - | Hyfedredd |
| C2 | - | Rhugl |

## Nifer o Staff â Sgiliau Cymraeg yn ôl Cyfarwyddiaeth

| Cyfarwyddiaeth | Siarad Cymraeg | Darllen Cymraeg | Deall Cymraeg | Ysgrifennu Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Children and Family Services | 154 | 144 | 148 | 147 |
| Adults and Communities | 53 | 50 | 49 | 50 |
| Resources Directorate | 50 | 44 | 44 | 43 |
| Economy & Environment | 22 | 21 | 22 | 22 |
| Shared Resource Service | 20 | 20 | 20 | 19 |


**16**

o Staff yn dymuno Cyfathrebu yn Gymraeg

## Nifer y Staff sydd â Sgiliau Cymraeg yn ôl Lefel Cymhwysedd

| Disgrifiad | Siarad Cymraeg | Darllen Cymraeg | Deall Cymraeg | Ysgrifennu Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| C1 Proficiency - Express fully and precisely (Mynegu'n llawn ac yn gywir) | 3 | 3 | 3 | 3 |
| B2 Level - Advanced (Uwch) | 10 | 8 | 8 | 8 |
| B1 Level - Intermediate (Canolradd) | 18 | 15 | 16 | 14 |
| C2 Proficiency - Fully proficient (Rhugl) | 32 | 28 | 29 | 30 |
| A2 Level - Foundation (Sylfaen) | 54 | 51 | 51 | 52 |
| A1 Level - Entry (Mynediad) | 182 | 174 | 176 | 174 |

Nifer y Staff (yn ôl Cyfarwyddiaeth) sydd â Sgiliau Cymraeg da (C1 a C2)



## Hyfforddiant iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn cynnal nifer o gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg, gyda'r bwriad o gynyddu gallu siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad a datblygu hyder staff sy'n gyndyn o ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Mae'r cyrsiau i gyd yn cael eu hariannu'n ganolog.

Yn ystod 2024/2025, aeth 14 o gyflogeion i hyfforddiant iaith Gymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (a ddarperir gan Goleg Gwent).

Mae 5.73% o'n gweithlu yn gallu siarad Cymraeg (Lefelau A1-C2)

Astudiodd 3 aelod o staff y Gymraeg drwy "Say Something in Welsh", cwrs ar-lein.

Cwblhaodd 4 aelod o staff yr hyfforddiant ymwybyddiaeth ar-lein drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol

O dan Safon 128, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant Cymraeg i staff yn y meysydd canlynol, os ydynt yn cael eu cynnig yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu;
- Cyfnod sefydlu;
- Delio gyda'r cyhoedd; a
- Iechyd a diogelwch.

Darparwyd hyfforddiant mewn rhai o'r meysydd hyn yn ystod 2024/25, cynigwyd, yn y gwahoddiad, ddewis iaith i'r rhai a fynychodd.  Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyrsiau'n symud yn bennaf i lwyfannau digidol ac yn cael eu cynnig yn ddwyieithog a byddwn yn datblygu dull o gofnodi ac adrodd ar nifer y mynychwyr a'r iaith a ddewiswyd.

## Recriwtio

Yn ystod 2024/25, hysbysebwyd **718** o swyddi newydd neu wag gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Roedd nifer y swyddi yn y categori a oedd yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg fel a ganlyn:

| **Categori** | **Nifer y swyddi a gategoreiddiwyd** | **Canran y swyddi a gategoreiddiwyd** |
|---|---|---|
| Hanfodol | 38 | 5.29 |
| Dymunol | 69 | 9.61 |
| Angen dysgu | 5 | 0.70 |
| Dim angen sgiliau Cymraeg | 606 | 84.40 |

Fel rhan o'r broses recriwtio, ac fel gofyniad dan Safon 136, rhaid asesu pob swydd o ran ei sgiliau iaith Gymraeg.

O fis Mawrth 2025 ymlaen, bydd y Cyngor yn asesu swyddi gwag yn erbyn dwy catagori yn unig: Cymraeg  dymunol neu Cymraeg hanfodol.  Bydd hyn yn caniatáu i ymgeiswyr nodi eu lefel Cymraeg a chyfrannu at ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyngor.

# 4. Casgliad

## Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd
Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda Menter Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy, a sefydliadau partner eraill i gyflawni canlyniadau'r strategaeth 5 mlynedd (2024 – 2029).

Mae 5 maes allweddol a gwmpesir gan y Strategaeth:
1. Deddfwriaeth a Pholisi
2. Addysg
3. Y Gymuned
4. Cyflenwi Gwasanaethau
5. Y Gweithle

Mae'r Strategaeth wedi'i halinio'n agos â Chynllun Strategol Addysg Cymru (WESP) a Strategaeth Llywodraeth Cymru – Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal adolygiad o Strategaethau Hyrwyddo ledled Cymru yn ystod 2025/2026

## Archwiliad Sgiliau Staff.
Mae gennym lawer o staff sydd wedi mynd trwy addysg cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref, ond gwyddom fod sgiliau yn aml yn cael eu hanghofio, a bod hyder yn cael eu colli. Hoffem gefnogi ein staff i barhau i ddefnyddio'r sgiliau bywyd hynod werthfawr hynny. Bydd hyn hefyd yn caniatáu inni ddeall ble mae gennym fylchau sgiliau fel y gallwn edrych i lenwi'r rhain trwy recriwtio a / neu hyfforddi yn y dyfodol.

Ar ddechrau 2024, lansiwyd ymgyrch newydd i annog ein staff i gofnodi eu sgiliau iaith ar iFOR (ein system AD) gan ddefnyddio lefelau CEFR. Mae'r 6 lefel o sgiliau sy'n amrywio o ddechreuwr pur (A1) i 'rhugl' (C2) wedi'u cysylltu â chymwysterau cydnabyddedig a fframwaith asesu arall ac er mwyn ein halinio â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus.

## Dileu rwystrau
Ym mis Ebrill 2024, cafodd y tâl mewnol ar gyfarwyddiaethau am gyfieithiadau ei ddileu, gan leddfu'r rhwystrau sy'n wynebu rheolwyr wrth gydbwyso pwysau'r gyllideb a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Yn ogystal, fe wnaethom drosglwyddo i system electronig ar gyfer wneud cais am ac olrhain cyfieithiadau, gan symleiddio'r broses ar gyfer staff a chyfieithwyr.

Mae'r newidiadau hyn wedi ein galluogi i roi mwy o bwyslais ar hyrwyddo'r Gymraeg a gwella ein gwasanaethau Cymraeg i breswylwyr.

Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o gynllun peilot Llywodraeth Cymru. Ymgyrch sy'n ceisio annog pobl o bob cefndir i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Mae'r bartneriaeth 'Cymraeg i Bawb' wedi bod mor llwyddiannus nes ei bod bellach yn cael ei wthio ledled Cymru gyda chymorth Mentrau Iaith Cymru.

## Digwyddiadau Diwylliannol
I ddathlu diwylliant Cymru mewn partneriaeth â Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy, mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r ŵyl 'Torf-hwyl'.  Digwyddiad cerddoriaeth, adrodd straeon a gweithgareddau gyda'r nod o hyrwyddo diwylliant Cymru ymhlith plant a phobl ifanc, waeth beth fo'u cefndir. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Ysgol Panteg yn 2024/2025.

Roedd y Cyngor hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o Ddydd Gŵyl Dewi, Santes Dwynwen, a'r Eisteddfod drwy gydol y flwyddyn. Cyflawnwyd hyn yn bennaf trwy gyfathrebu mewnol staff, bwydlenni thema yn y Caffi Inspire, ac arddangos baneri amrywiol y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig.

## Datblygu Polisi
Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei Asesiad Effaith Integredig (IIA) yn dilyn cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r asesiad bellach yn cyfeirio at yr "ymdrech gydwybodol" sydd ei angen ar gyfer pob penderfyniad polisi.

Mae modiwl hyfforddi ar-lein newydd wedi'i ddatblygu i eistedd ochr yn ochr â'r IIA a chynorthwyo rheolwyr ac uwch swyddogion i wneud "ymdrech gydwybodol" wrth asesu effeithiau cadarnhaol ac andwyol polisiau, yn uniongyrchol ac yn uniongyrchol ar y Gymraeg.

Mae'r angen i asesu effeithiau yn gynharach yn y broses datblygu polisi yn parhau i fod yn allweddol i'r broses. Rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr o’r tîm Ddatblygu Corfforaethol i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn glir i'r holl swyddogion sy'n ymwneud â chwblhau'r IIA